OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1074

# Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

**Eithriadau i'r gofyniad i gael cymeradwyaeth: arwynebedd adeiladu o lai na 100 metr sgwâr**

**6.**—(1) Nid yw'r gofyniad i gael cymeradwyaeth o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3 yn gymwys—

(a) pan fo gwaith adeiladu yn cynnwys—

(i) adeiladu un tŷ annedd, a

(ii) darn o dir lle y gwneir y gwaith adeiladu sy'n mesur llai na 100 metr sgwâr, neu

(b) yn achos unrhyw fath arall o waith adeiladu, pan fo'r darn o dir lle y gwneir y gwaith adeiladu yn mesur llai na 100 metr sgwâr.

(2) Mae'r erthygl hon yn gymwys pa un a yw caniatâd cynllunio yn ofynnol ai peidio ar gyfer y gwaith adeiladu.